



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwestiynau cyffredin: gwyliau yn ystod y tymor ysgol yng Nghymru


Gwybodaeth i rieni a gofalwyr sy'n ystyried trefnu gwyliau yn ystod y tymor

Mae llawer o brofiadau tu allan i'r ysgol y gall plant ddysgu oddi wrthyn nhw a fydd yn cyfoethogi eu bywydau. Fodd bynnag, dim ond am gyfnod byr y mae dysgwyr yn yr ysgol ac mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau un o'r amser hwn er lles eich plentyn chi. Os ydych chi'n penderfynu bod yn rhaid i chi drefnu gwyliau yn ystod y tymor ysgol, byddwch cystal â phwyso a mesur hynny yn erbyn y ffaith efallai y bydd gwaith ysgol eich plentyn yn dioddef ac na fydd yn gwneud cystal mewn arholiadau os yw'n methu'r ysgol.

Mae ymchwil yn awgrymu bod cysylltiad rhwng presenoldeb rheolaidd plentyn yn yr ysgol a pha mor dda y mae'n perfformio mewn arholiadau yn yr ysgol. Mae'r graff ar y dudalen nesaf yn dangos yn gyffredinol bod disgyblion gyda chyfraddau uwch o absenoldeb yn llai tebygol o ennill pum gradd A*-C (gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg) yn eu harholiadau TGAU.

Mae'r llinell las tywyll yn dangos faint o blant oedd yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth, ac yn un ai Cymraeg fel iaith gyntaf neu Saesneg (Dangosydd Pwnc Craidd) ym Mlwyddyn 6. Mae'r llinell las golau yn dangos faint o blant 15 oed a enillodd bump TGAU graddau A*-C gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg (Lefel 2 Gynhwysol). Yn y ddau achos, mae'r siart yn awgrymu yn gyffredinol bod canlyniadau disgyblion yn is os oes ganddynt gyfraddau absenoldeb uwch.

Tabl 1 – Cyflawniad dysgwyr Blwyddyn 6 a Blwyddyn 11, yn ôl cyfradd absenoldeb gyffredinol, 2016



1: Beth yw arwyddocâd achos Ynys Wyth V Platt yn y Goruchaf Lys?

A: Mae'r achos yn y Goruchaf Lys a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ynys Wyth yn ymwneud â dirwyo ysgolion oherwydd absenoldeb anawdurdodedig.

Yn ôl adran 444(1) o Ddeddf Addysg 1996, os yw plentyn o oedran ysgol gorfodol yn methu mynychu'r ysgol yn rheolaidd, gall ei rieni fod yn euog o drosedd a gorfod talu dirwy. Nod yr achos oedd sicrhau eglurdeb ynglŷn ag ystyr *presenoldeb rheolaidd* mewn ysgol.

Os yw rhiant yn gwybod bod ei blentyn yn methu mynychu'r ysgol yn rheolaidd a'i fod yn methu sicrhau bod y plentyn yn gwneud hynny, mae'n euog o drosedd fwy difrifol a bydd yn wynebu dirwy fwy sylweddol neu gyfnod yn y carchar.

Roedd Cyngor Ynys Wyth yn credu bod Mr Platt wedi cyflawni trosedd o dan adran 444(1) o Ddeddf Addysg 1996. Cyhoeddodd hysbysiad cosb, ond gwrthododd Mr Platt ei dalu. O ganlyniad, aeth yr awdurdod lleol ati i erlyn Mr Platt o dan adran 444(1) o Ddeddf Addysg 1996.

Caiff hysbysiad cosb ei gyhoeddi gan awdurdod lleol er mwyn rhoi cyfle i berson ei ryddhau ei hun o unrhyw atebolrwydd am euogfarn ar gyfer y drosedd o dan adran 444(1) y mae'r hysbysiad yn berthnasol iddi drwy dalu cosb yn unol â'r hysbysiad.

2: A yw dyfarniad y Goruchaf Lys yn yr achos hwn yn berthnasol i Gymru?

A: Ydy. Mae adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 yn berthnasol i Gymru a Lloegr, felly mae dyfarniad y Goruchaf Lys yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

3: Beth yw canlyniad yr achos a sut mae'n effeithio ar Gymru?

A: Nod yr achos oedd sicrhau eglurdeb gan y Llys ynglŷn ag ystyr *presenoldeb rheolaidd* disgybl mewn ysgol. Mae'r dyfarniad yn cadarnhau bod '*presenoldeb rheolaidd*' mewn ysgol yn golygu presenoldeb yn unol â'r rheolau a ragnodir gan yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gorff llywodraethu, yn hytrach na rhiant plentyn, benderfynu beth yw ystyr '*presenoldeb rheolaidd*' mewn ysgol.

4: Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol i Gymru?

A: Mae'n golygu bod yn rhaid i riant gael caniatâd y pennaeth cyn mynd ati i dynnu ei blentyn o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol. Os nad yw'r pennaeth yn caniatáu'r absenoldeb, caiff yr absenoldeb ei ystyried yn 'absenoldeb anawdurdodedig'. Yn unol â hyn, gall rhiant dderbyn hysbysiad cosb benodedig (dirwy) am beidio â sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

5: A yw hyn yn golygu na allaf fynd â'm plentyn ar wyliau yn ystod y tymor ysgol?

A: Nac ydy, mae dyfarniad y Goruchaf Lys yn darparu eglurdeb o dan Adran 444 o'r Ddeddf Addysg ynglŷn ag ystyr *presenoldeb rheolaidd* mewn ysgol. Nid yw'n newid y sefyllfa yng Nghymru lle mae deddfwriaeth eilaidd – Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 (*Rheoliadau 2010*) – eisoes yn nodi'r trefniadau yn ymwneud â gwyliau yn ystod tymor ysgol.

6: A oes gan ysgolion yr awdurdod i ganiatáu absenoldeb yn ystod y tymor ar gyfer gwyliau?

A: Oes. Nid yw penderfyniad y Goruchaf Lys yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar y trefniadau sydd eisoes ar waith yng Nghymru. Ni ddylai rhieni gymryd eu plant allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau heb sicrhau caniatâd y pennaeth *ymlaen llaw*. O dan Reoliadau 2010, mae gan ysgolion bŵer disgresiwn i awdurdodi hyd at 10 diwrnod o absenoldeb yn ystod blwyddyn ysgol ar gyfer gwyliau teuluol yn ystod y tymor os yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol.

7: Pam mai'r ysgol sy'n gwneud y penderfyniad hwn?

A: Mae'r holl wybodaeth berthnasol ar gael i benaethiaid i'w helpu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth. Mae pennaeth yn gallu ystyried amgylchiadau unigol ar sail achosion unigol. Bydd yn ystyried nifer o ffactorau cyn gwneud penderfyniad, gan gynnwys adeg y flwyddyn, cyfnod y gwyliau, y rheswm am y gwyliau, yr effaith ar addysg y disgybl, amseriad arholiadau neu brofion, amgylchiadau'r teulu a dymuniadau'r rhieni, yn ogystal â phresenoldeb cyffredinol a chyrhaeddiad y plentyn.

8: Beth sy'n digwydd os yw'r pennaeth yn gwrthod rhoi caniatâd?

A: Os yw pennaeth yn gwrthod cais am absenoldeb i fynd ar wyliau yn ystod y tymor ond bod y rhiant yn anwybyddu hynny ac yn mynd â'r plentyn ar wyliau beth bynnag, cofnodir hynny fel '*absenoldeb anawdurdodedig*'. Ysgolion, nid rhieni, sydd â'r hawl i awdurdodi absenoldeb. Gall absenoldeb anawdurdodedig arwain at riant yn derbyn hysbysiad cosb yng Nghymru o dan Reoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 os yw'r awdurdod lleol yn credu bod y rhiant wedi methu sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd (presenoldeb yn unol â rheolau'r ysgol).

9: Pwy sy'n gyfrifol am gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig?

A: Mae awdurdodau lleol yn cyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig ar ran ysgol – ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ac yn unol â Chod Ymddygiad yr awdurdod lleol.

10: Os yw'r absenoldeb yn anawdurdodedig, a fyddaf yn derbyn hysbysiad cosb yn awtomatig?

A: Yr awdurdod lleol sy'n penderfynu a oes angen cyhoeddi dirwy, a bydd yn ymgynghori â'r ysgol yn aml cyn gwneud hynny. Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru God Ymddygiad sy'n nodi ei drefniadau ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig.

Nododd dyfarniad y Goruchaf Lys fod mynychu'r ysgol "*yn rheolaidd*" yn golygu "*yn unol â'r rheolau a ragnodir gan yr ysgol*". Mae hyn yn golygu bod unrhyw absenoldeb anawdurdodedig yn cael ei ystyried yn methu mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Cyhoeddir hysbysiadau cosb am fethu mynychu'r ysgol yn rheolaidd: mewn geiriau eraill, absenoldeb anawdurdodedig rheolaidd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd yn llwyr â'r safbwynt bod angen i ddisgyblion fynychu'r ysgol ar bob achlysur gofynnol er mwyn gallu gwireddu eu potensial yn llawn. Mae gan bob awdurdod lleol wybodaeth am gyhoeddi hysbysiadau cosb yn ei ardal yn ei God Ymddygiad. I gael rhagor o wybodaeth am y polisi yn ymwneud â hysbysiadau cosb benodedig yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch ysgol neu'ch awdurdod lleol.